# Lefel Mynediad
# Darlith 5: Hoffi ac eisiau

# Nodiadau i'r tiwtor

| Yn y ddarlith hon, bydd y ffocws ar: | Technegau caffael iaith a ddefnyddir: | Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch chi: |
|---|---|---|
| • Adolygu patrymau a ddysgwyd<br>• Hoffi / ddim yn hoffi<br>• Eisiau | • Drilio – dril ailadrodd / cwestiwn ac ateb / dril disodli<br>• Tasg wrando – gwrando ar glip sain er mwyn llenwi'r bylchau mewn sgwrs<br>• Canu<br>• Chwarae gêm – defnyddio disiau poced a sach geiriau er mwyn ymarfer patrymau newydd<br>• Tasg gyfieithu – o'r Saesneg i'r Gymraeg | • byrddau gwyn unigol<br>• disiau poced<br>• sach geiriau |

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

# Y tabl treiglo

| **Llythyren cyn treiglo**<br>*Original letter* | **Treiglad meddal**<br>*Soft mutation* | **Treiglad trwynol**<br>*Nasal mutation* | **Treiglad llaes**<br>*Aspirate mutation* |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# **Ydych chi'n cofio?** ***Do you remember?***



Good morning.

How are you? (pl)

Good afternoon.

I'm fine, thank you.

Good morning, children.

Who are you? (sgl)

How are you? (sgl)

I am ... .

# Ydych chi'n cofio? *Do you remember?*

**Atebion**

Bore da.

Sut ydych chi?

Prynhawn da.

Dw i'n iawn, diolch.

Bore da **b**lant.

Pwy wyt ti?

Sut wyt ti?

... ydw i  .

Cyfieithwch y sgwrs gan ddefnyddio’r patrymau ddysgoch chi wythnos diwethaf.
*Translate the conversation by using the Welsh patterns you learnt last week.*



**A: Good afternoon!**
**B: Hello! Who are you?**
**A: I am Matthew. Who are you?**
**B: I am Mali Ann.**
**A: How are you?**
**B: I am tired. How are you?**
**A: I am ill.**
**B: Oh, no!**

# Gwrandewch yn ofalus ... Listen carefully ...



| | |
|---|---|
| A: | Bore da. |
| B: | Bore da.  Pwy wyt ti? |
| A: | _______ ydw i.  Pwy wyt ti? |
| B: | Rhian wyt ti.  _______________? |
| A: | Dw i’n _________.  ________ rwyt ti’n byw? |
| B: | Dw i’n byw yng ___________________. |
| A: | A fi! |
| B: | Beth wyt ti’n ___________? |
| A: | Dw i’n hoffi ____________, chwarae rygbi a _____________. |

# Gwrandewch yn ofalus ... Listen carefully ...



A: Bore da.

B: Bore da.  Pwy wyt ti?

A: Rhys ydw i.  Pwy wyt ti?

B: Rhian wyt ti.  Sut wyt ti?

A: Dw i’n iawn diolch.  Ble rwyt ti’n byw?

B: Dw i’n byw yng Nghaernarfon.

A: A fi!

B: Beth wyt ti’n hoffi?

A: Dw i’n hoffi darllen, chwarae rygbi a nofio.

# Gwrandewch yn ofalus ... Listen carefully ...



A: Bore da.

B: Bore da.  Pwy wyt ti?

A: Rhys ydw i.  Pwy wyt ti?

B: Rhian wyt ti.  Sut wyt ti?

A: Dw i’n iawn diolch.  Lle rwyt ti’n byw?

B: Dw i’n byw yng Nghaernarfon.

A: A fi!

B: Be wyt ti’n hoffi?

A: Dw i’n hoffi darllen, chwarae rygbi a nofio.

# Beth wyt ti'n hoffi? *What do you like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Beth wyt ti'n hoffi? | What do you like? (singular) |
| Rydw i'n hoffi ... . | I like ... . |
| Dw i'n hoffi ... . | |
| | |
| Beth ydych chi'n hoffi? | What do you like? (formal singular or plural) |
| Rydw i'n hoffi ... . | I like ... . |
| Dw i'n hoffi ... . | |
| Rydyn ni'n hoffi ... . | We like ... . |
| 'Dyn ni'n hoffi ... . | |

# Be wyt ti'n hoffi / licio? *What do you like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Be wyt ti'n hoffi / licio? | What do you like? (singular) |
| Rydw i'n hoffi / licio ... | I like ... . |
| Dw i'n hoffi / licio ... | |
| | |
| Beth dach chi'n hoffi? | What do you like? (formal singular or plural) |
| Rydw i'n hoffi ... . | I like ... . |
| Dw i'n hoffi ... . | |
| Rydyn ni'n hoffi ... . | We like ... . |
| Dan ni'n hoffi ... . | |

# Dw i'n hoffi….!
## (#She'll be coming round the mountain)

Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!
Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!
Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol
Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol
Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!

bwyta siocled,
dawnsio disgo,
darllen llyfr,

# Dw i’n hoffi….!
## (#She’ll be coming round the mountain)

Dw i’n hoffi mynd i’r ysgol, ydw wir!
Dw i’n hoffi mynd i’r ysgol, ydw wir!
Dw i’n hoffi mynd i’r ysgol
Dw i’n hoffi mynd i’r ysgol
Dw i’n hoffi mynd i’r ysgol, ydw wir!

bwyta siocled,
dawnsio disgo,
darllen llyfr,

# Beth dwyt ti <u>dd</u>im yn hoffi?
# *What don’t you like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Beth dwyt ti **<u>dd</u>**im yn hoffi? | *What don’t you like? (singular)* |
| Dydw i **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | *I don’t like ... .* |
| Dw i **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | |
| | |
| Beth dydych chi **<u>dd</u>**im yn hoffi? | *What don’t you like? (formal singular or plural)* |
| Dydw i **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | *I Idon’t like ... .* |
| Dw i **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | |
| Dydyn ni **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | *We don’t like ... .* |
| ‘Dyn ni **<u>dd</u>**im yn hoffi ... . | |

# Be dwyt ti <u>dd</u>im yn hoffi / licio?
# *What don’t you like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Be dwyt ti **dd**im yn hoffi / licio? | *What don’t you like? (singular)* |
| Dydw i **dd**im yn hoffi / licio ... . | *I don’t like ... .* |
| Dw i **dd**im yn hoffi / licio ... . | |
| | |
| Be dach chi **dd**im yn hoffi / licio? | *What don’t you like? (formal singular or plural)* |
| Dydw i **dd**im yn hoffi ... . | *I Idon’t like ... .* |
| Dw i **dd**im yn hoffi ... . | |
| Dydyn ni **dd**im yn hoffi ... . | *We don’t like ... .* |
| Dan ni **dd**im yn hoffi ... . | |

# Beth wyt ti’n hoffi? Beth dwyt ti ddim yn hoffi?















# Be wyt ti’n hoffi / licio?
# Beth dwyt ti ddim yn hoffi / licio?















# Wyt ti'n hoffi? *Do you like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n hoffi? | Do you like? (singular) |
| Ydw, rydw i'n hoffi ... . | Yes, I like ... . |
| Ydw, dw i'n hoffi ... . | |
| Nac ydw, dydw i **dd**im yn hoffi ... | No, I don't like ... . |
| Nac ydw, dw i **dd**im yn hoffi ... | |
| Ydych chi'n hoffi? | Do you like? (formal singular or plural) |
| Ydw, dw i'n hoffi ... . | Yes, I like ... . |
| Nac ydw, dw i **dd**im yn hoffi ... . | No, I don't like ... . |
| Ydyn, rydyn ni'n hoffi ... . | Yes, we like ... . |
| Nac ydyn, dydyn ni **dd**im yn hoffi ... . | No, we don't like ... . |

I droi'r patrwm i gwestiwn penodol rydych chi'n dileu "Beth?".
*To change the question to a definite question you don't use "Beth ...?"*
*~~Beth~~ wyt ti'n hoffi ...?*

# Wyt ti'n hoffi? *Do you like?*



**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Bydd angen yr un sach â'r ddarlith diwethaf arnoch chi.
2. Bydd angen dis poced arnoch. Rhowch y lluniau ar sleid 17 yn y pocedi.
3. Rhowch y cardiau lluniau (sleid 18) yn y sach.
4. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3 neu 4.
5. Rhowch sach a dis i bob grwp.
6. Bydd angen i un myfyriwr ddechrau'r gêm drwy holi: "Wyt ti'n hoffi ...... ?" gan ddewis llun o'r sach.
7. Taflwch y dis – os bydd yn glanio ar lun 'bawd i fyny' bydd disgwyl ateb yn gadarnhaol. Os bydd y dis yn glanio ar lun 'bawd i lawr' yna bydd angen ateb drwy ddefnyddio'r patrwm negyddol.

# Wyt ti'n hoffi?





| | | | |
|---|---|---|---|
| te  | coffi  | sudd afal  | dwr  |
| darllen  | gwylio’r teledu  | rhedeg  | cerdded  |
| nofio  | canu  | dawnsio  | cyri  |

# Beth mae e / hi'n hoffi?
# *What does he / she like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Beth mae e'n hoffi? | *What does he like?* |
| Mae e'n hoffi ... . | *He likes ... .* |
| Beth dydy e **dd**im yn hoffi? | *What doesn't he like?* |
| Dydy e **dd**im yn hoffi ... . | *He doesn't like ... .* |
| | |
| Beth mae hi'n hoffi? | *What does she like?* |
| Mae hi'n hoffi ... . | *She likes ... .* |
| Beth dydy hi **dd**im yn hoffi? | *What doesn't she like?* |
| Dydy hi **dd**im yn hoffi ... . | *She doen't like ... .* |

# Be mae o / hi'n hoffi?
# *What does he / she like?*

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*

| | |
|---|---|
| Be mae o'n hoffi? | *What does he like?* |
| Mae o'n hoffi ... . | *He likes ... .* |
| Be dydy o **dd**im yn hoffi? | *What doesn't he like?* |
| Dydy o **dd**im yn hoffi ... . | *He doesn't like ... .* |
| Be mae hi'n hoffi? | *What does she like?* |
| Mae hi'n hoffi ... . | *She likes ... .* |
| Be dydy hi **dd**im yn hoffi? | *What doesn't she like?* |
| Dydy hi **dd**im yn hoffi ... . | *She doen't like ... .* |

# Pwy ydy hi?  Beth mae hi'n hoffi?



Nerys Morris ydy hi.  Mae hi'n hoffi canu.

# Pwy ydy hi?  Be mae hi'n hoffi?



Nerys Morris ydy hi.  Mae hi'n hoffi canu.

# Pwy ydy e?  Beth mae e'n hoffi?



Kai Lloyd ydy e.  Mae e'n hoffi chwarae rygbi.

# Pwy ydy o?  Be mae o'n hoffi?



Kai Lloyd ydy o.  Mae o'n hoffi chwarae rygbi.

**Gwaith pâr:**

1. Mae'r daflen yn y ffolder.
2. Dywedwch y brawddegau ar lafar, e.e. Mae ..... yn hoffi ..... / Mae e'n / o'n hoffi ....... / Dydy .... ddim yn hoffi ... / Dydy hi ddim yn hoffi ....



Dywedwch y brawddegau canlynol wrth eich partner, e.e.
Mae Ela'n hoffi ...
Mae hi'n hoffi ....

| | | |
|---|---|---|
| Ela | | |
| Jacob | | |
| Dafydd | | |
| Cari | | |
| Catrin | | |
| Alun | | |
| Helen | | |
| Leah | | |
| Kai | | |

# Pa …. wyt ti’n hoffi?
# *Which … do you like?*

| | | |
|---|---|---|
| Pa **liw** (colour) | wyt ti’n hoffi? | Rydw i’n hoffi **gwyrdd.** |
| | | Dw i’n hoffi **gwyrdd.** |
| Pa **ffrwyth** (fruit) | wyt ti’n hoffi? | Rydw i’n hoffi **afal.** |
| | | Dw i’n hoffi **afal.** |
| Pa **lyfr**(book) | wyt ti’n hoffi? | Rydw i’n hoffi llyfrau **Harry Potter**. |
| | | Dw i’n hoffi llyfrau **Harry Potter**. |

# Pa … mae … hoffi?
# *Which … does … like?*

| | | |
|---|---|---|
| Pa **liw** (colour) | mae Rhys yn hoffi? | Mae Rhys yn hoffi **glas.** |
| Pa **ffrwyth** (fruit) | mae e’n / o’n hoffi? | Mae e’n / o’n hoffi **mefus.** |
| Pa **lyfr**(book) | mae Lucy’n hoffi? | Mae Lucy’n hoffi ***The BFG***. |
| Pa **ffilm** (film) | mae hi’n hoffi? | Mae hi’n hoffi **Wonder.** |

# Wyt ti'n hoffi? *Do you like?*

**<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:</u>**

1. Bydd angen casgliad o lyfrau geiriau arnoch chi, e.e. Y Geiriadur Lliwgar, Pawb a Phopeth Llyfr Mawr geiriau, a.y.y.b.
2. Gofynnwch I'r myfyrwyr droi at y dudalen lle mae lluniau o fwyd.
3. Rhowch amser iddyn nhw ymarfer y patrymau canlynol:

   Beth wyt ti'n hoffi?

   Beth dwyt ti ddim yn hoffi?

   Pa ffrwyth wyt ti'n hoffi?

# Codwch a sgwrsiwch! *Get up and chat!*



| Pwy wyt ti? | Pa <u>l</u>iw wyt ti'n hoffi? | Pa <u>f</u>wyd wyt ti'n hoffi? | Pa <u>dd</u>iod wyt ti'n hoffi? | Pa <u>l</u>yfr wyt ti'n hoffi? |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | |
| 2. | | | | |
| 3. | | | | |
| 4. | | | | |
| 5. | | | | |

# Beth ddysgoch chi? *What did you learn?*

**Gwybodaeth i'r tiwtor:**

1. Gofynnwch y cwestiynau canlynol ar hap i'r myfyrwyr.
2. Maen nhw wedi bod yn defnyddio'r partrwm ail berson unigol (ti) wrth holi'r cwestiynau. Ond, wrth i chi eu holi bydd angen defnyddio'r patrwm y trydydd personol unigol fe / hi.

Atebwch y cwestiynau:

- Pa liw mae .... yn hoffi?
- Pa fwyd mae ... yn hoffi?
- Pa ddiod mae ... yn hoffi?
- Pa lyfr mae ... Yn hoffi?

# Eisiau / to want

Ydych chi'n cofio ...

Beth wyt ti'n hoffi?

Gallwch chi ddefnyddio'r un patrwm cwestiwn wrth ddweud:

Beth wyt ti eisiau?

Sylwch:
Does dim **'n**
o flaen eisiau

*Do you remember ...*

*Beth wyt ti'n hoffi?*

*You can use the same pattern to ask "What do you want?" by changing "hoffi" for "eisiau":*

Beth wyt ti eisiau?

*What do you want?*

# Eisiau (isio) / to want

Ydych chi'n cofio ...

Be wyt ti'n hoffi?

Medrwch chi ddefnyddio'r un patrwm cwestiwn wrth ddweud:

Be wyt ti eisiau / isio?

Sylwch:
Does dim **'n**
o flaen eisiau

*Do you remember ...*

*Be wyt ti'n hoffi?*

*You can use the same pattern to ask "What do you want?" by changing "hoffi" for "eisiau":*

Be wyt ti eisiau / isio?

*What do you want?*

# Beth wyt ti eisiau?
# *What do you want?*

Dw i eisiau afal. *I want an apple.*

Dw i eisiau pensil. *I want a pencil.*

Dw i eisiau chwarae. *I want to play.*

Sylwch:
Does dim **‘n**
o flaen eisiau

# Beth wyt ti eisiau / isio?
# *What do you want?*

| | |
|---|---|
| Dw i eisiau / isio afal. | *I want an apple.* |
| Dw i eisiau / isio pensil. | *I want a pencil.* |
| Dw i eisiau / isio chwarae. | *I want to play.* |

Sylwch:
Does dim **'n**
o flaen eisiau

# Amser egwyl ...

## Wyt ti eisiau ...?

Ydw, dw i eisiau ...

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dw i ddim eisiau ...

Na, dim diolch.

| | | |
|---|---|---|
| **te**  | **coffi**  | **dwr**  |
| **llaeth**  | **siwgr**  | **afal**  |
| **banana**  | **grawnwin**  | **ffrwyth**  |
| **mefus**  | **bisgïen**  | **cacen**  |

## Ydych chi eisiau ...?

Ydyn, rydyn ni eisiau ...

Ydyn, os gwelwch yn dda.

Nac ydyn, dydyn ni ddim eisiau ...

Na, dim diolch.

# Amser egwyl ...



| | | |
|---|---|---|
| **te**  | **coffi**  | **dwr**  |
| **llaeth**  | **siwgr**  | **afal**  |
| **banana**  | **grawnwin**  | **ffrwyth**  |
| **mefus**  | **bisgïen**  | **cacen**  |

## Wyt ti eisiau / isio...?

Oes, dw i eisiau / isio ...

Oes, os gwelwch yn dda.

Nac oes, dw i ddim eisiau / isio ...

Na, dim diolch.

## Dach chi eisiau / isio ...?

Oes, dan ni eisiau / isio...

Oes, os gwelwch yn dda.

Nac oes, dan ni ddim eisiau / isio...

Na, dim diolch.

# **Beth mae e / hi eisiau?**
# ***What does he / she want?***

Mae Rhys eisiau siocled. *Rhys wants chocolate.*

Mae e eisiau siocled. *He wants chocolate.*

Mae Nia eisiau llaeth. *Nia wants milk.*

Mae hi eisiau llaeth. *She wants milk.*

Sylwch:
Does dim **‘n**
o flaen eisiau

# Be mae o / hi eisiau / isio?
# *What does he / she want?*

Mae Rhys eisiau / isio siocled.
Mae o eisiau / isio siocled.

*Rhys wants chocolate.*
*He wants chocolate.*

Mae Nia eisiau / isio llaeth.
Mae hi eisiau / isio llaeth.

*Nia wants milk.*
*She wants milk.*

Sylwch:
Does dim **'n**
o flaen eisiau

# Dril disodli

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*
Beth am **dd**efnyddio lleisiau gwahanol, e.e. yn uchel, yn **d**awel, yn araf, yn **g**yflym, a.y.y.b.?

Dw i eisiau coffi.
Dw i eisiau te.
Mae e eisiau te.
Mae e eisiau pop.
Mae Rhodri eisiau pop.
Mae Rhodri eisiau mefus.
Mae hi eisiau mefus.
Mae hi eisiau afal.
Mae Sioned eisiau afal.
Mae Sioned eisiau siocled.

# Dril disodli

Ailadroddwch ar ôl y tiwtor. *Repeat after the tutor.*
Beth am **dd**efnyddio lleisiau gwahanol, e.e. yn uchel, yn **d**awel, yn araf, yn **g**yflym, a.y.y.b.?

Dw i eisiau coffi.
Dw i eisiau te.
Mae o eisiau te.
Mae o eisiau pop.
Mae Rhodri eisiau pop.
Mae Rhodri eisiau mefus.
Mae hi eisiau mefus.
Mae hi eisiau afal.
Mae Sioned eisiau afal.
Mae Sioned eisiau siocled.

# Cyfieithwch y brawddegau canlynol:
# *Translate the following sentences:*



I like coffee.
She likes tea.
Siân likes milk.
He likes fruit.

I want coffee.
She wants tea.
Siân wants milk.
He wants fruit.

# **Cyfieithwch y brawddegau canlynol:**
# ***Translate the following sentences:***



I like coffee.
She likes tea.
Siân likes milk.
He likes fruit.

I want coffee.
She wants tea.
Siân wants milk.
He wants fruit.

Rydw i'n hoffi coffi. / Dw i'n hoffi coffi.
Mae hi'n hoffi te.
Mae Siân yn hoffi llaeth.
Mae e'n / o'n hoffi ffrwythau.

Rydw i eisiau coffi. / Dw i eisiau coffi.
Mae hi eisiau te.
Mae Siân eisiau llaeth.
Mae e / o eisiau ffrwythau.

# Amser snac / Snack time

Beth mae Neli eisiau amser snac?
Beth mae hi eisiau amser snac?

Beth mae Bryn eisiau amser snac?
Beth mae e eisiau amser snac?

Beth mae hi eisiau i frecwast?
Beth mae e eisiau i swper?

**Beth ...?**
***What ...?***

# Amser snac / Snack time

Be mae Neli eisiau amser snac?
Be mae hi eisiau amser snac?

Be mae Bryn eisiau amser snac?
Be mae o eisiau amser snac?

Be mae hi eisiau i frecwast?
Be mae o eisiau i swper?

**Be ...?**
***What ...?***

# Yn yr uwchradd ...

Beth mae Nerys eisiau amser egwyl?
Beth mae hi eisiau i yfed?

Beth mae Bryn eisiau coginio?
Beth mae e / o eisiau ysgrifennu?

Beth mae hi eisiau gwneud?
Beth mae e / o eisiau gwneud nesaf?

**Beth ...?**
***What ...?***

| | |
|---|---|
| **amser egwyl** | ***breaktime*** |
| **yfed** | ***to drink*** |
| **coginio** | ***to cook*** |
| **ysgrifennu** | ***to write*** |
| **gwneud** | ***to do*** |
| **nesaf** | ***next*** |

# Yn yr uwchradd ...

Be mae Nerys eisiau amser egwyl?
Be mae hi eisiau i yfed?

Be mae Bryn eisiau coginio?
Be mae o eisiau ysgrifennu?

Be mae hi eisiau gwneud?
Be mae o eisiau gwneud nesaf?

**Be ...?**
***What ...?***

| | |
|---|---|
| **amser egwyl** | ***breaktime*** |
| **yfed** | ***to drink*** |
| **coginio** | ***to cook*** |
| **ysgrifennu** | ***to write*** |
| **gwneud** | ***to do*** |
| **nesaf** | ***next*** |

# Pwy sy eisiau ...?  Who wants ...?

Pwy sy eisiau cinio ysgol?
*Who wants ....?*

Pwy sy eisiau ffrwyth?

Pwy sy eisiau llaeth?

Pwy sy eisiau darllen?

Pwy sy eisiau helpu?

# Yn y dosbarth (cynradd)

Athro: Nawr, blant, mae hi'n amser snac! Ydych chi eisiau ffrwyth?

Plant: Ydyn!

Athro: Lisa, wyt ti'n hoffi afal?

Lisa: Nadw, dw i **dd**im yn hoffi afal. Dw i'n hoffi banana.

Athro: Wyt ti eisiau banana?

Lisa: Ydw. Mae Luke eisiau banana hefyd, syr.

Athro: Luke, wyt ti eisiau banana?

Luke: Ydw, plîs.

# Yn y dosbarth (cynradd)

Athro: Rŵan, blant, mae hi'n amser snac! Dach chi isio ffrwyth?

Plant: Oes!

Athro: Lisa, wyt ti'n hoffi afal?

Lisa: Nac ydw, dw i **dd**im yn hoffi afal. Dw i'n hoffi banana.

Athro: Wyt ti isio banana?

Lisa: Oes. Mae Luke isio banana hefyd, syr.

Athro: Luke, wyt ti isio banana?

Luke: Oes, plîs.

# Pwy sy eisiau ...?  Who wants ...?

## (Yn yr uwchradd ...)

Pwy sy eisiau help?
*Who wants ....?*

Pwy sy eisiau helpu?

Pwy sy eisiau gweithio gyda **ph**artner?

Pwy sy eisiau gweithio ar y cyfrifiadur?

Pwy sy eisiau gweithio'n annibynnol?

| | |
|---|---|
| **help** | ***help*** |
| **helpu** | ***to help*** |
| **gweithio** | ***to work*** |
| **gyda phartner** | ***with a partner*** |
| **ar y cyfrifiadur** | ***on the computer*** |
| **yn annibynnol** | ***independently*** |

# Pwy sy eisiau / isio ...?  Who wants ...?

## (Yn yr uwchradd ...)

Pwy sy eisiau / isio help?
*Who wants ....?*

Pwy sy eisiau / isio helpu?

Pwy sy eisiau / isio gweithio efo partner?

Pwy sy eisiau / isio gweithio ar y cyfrifiadur?

Pwy sy eisiau / isio gweithio'n annibynnol?

| | |
|---|---|
| **help** | ***help*** |
| **helpu** | ***to help*** |
| **gweithio** | ***to work*** |
| **efo partner** | ***with a partner*** |
| **ar y cyfrifiadur** | ***on the computer*** |
| **yn annibynnol** | ***independently*** |

# Yn y dosbarth (uwchradd)

Athro: Nawr, **b**lant, mae hi'n amser gwneud y **d**asg. Ydych chi'n barod?

Plant: Ydyn!

Athro: Nina, wyt ti'n hoffi gweithio gyda **ph**artner?

Nina: Nadw, dw i **dd**im yn hoffi gweithio gyda **ph**artner. Dw i'n hoffi gweithio'n annibynnol.

Athro: Wyt ti eisiau gweithio gyda **ph**artner, Noa?

Noa: Ydw. Mae Elis eisiau gweithio gyda **ph**artner hefyd, syr.

Athro: Elis, wyt ti eisiau gweithio gyda Noa?

Elis: Ydw, plîs.

# Yn y dosbarth (uwchradd)

Athro: Rŵan, **b**lant, mae hi'n amser gwneud y **d**asg. Dach chi'n barod?

Plant: Ydan!

Athro: Nina, wyt ti'n hoffi gweithio efo partner?

Nina: Nac ydw, dw i **dd**im yn hoffi gweithio efo partner. Dw i'n hoffi gweithio'n annibynnol.

Athro: Wyt ti isio gweithio efo partner, Noa?

Noa: Oes. Mae Elis isio gweithio efo partner hefyd, syr.

Athro: Elis, wyt ti isio gweithio efo Noa?

Elis: Oes, plîs.

# Gem adolygu

**<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:</u>**

- Bydd angen un dis poced arnoch.
- Yn y dis, rhowch y cardiau marc cwestiwn, bawd i fyny, bawd i lawr (sleid nesaf).
- Gofynnwch i'r myfyrwyr daflu'r dis.
- Pan fydd y dis yn glanio ar y marc cwestiwn, rhaid i'r myfyriwr ofyn cwestiwn, e.e. Pwy wyt ti?
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i fyny, rhaid i'r myfyriwr ddweud brawddeg gadarnhanol, e.e. Dw i'n hoffi cyri.
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i lawr, rhaid i'r myfyrwir ddweud brawddeg negyddol, e.e. Dw i **<u>dd</u>**im yn hoffi darllen.



# Wyt ti'n hoffi?





# Munud i feddwl … / Time to think …

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?
*Which language acquisition techniques were used in this lecture?*



Drilio



Ymarfer ar lafar (yn unigol)



Gwaith pâr



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Grŵp o dri

# Da iawn chi!

DW I'N DYSGU CYMRAEG

# Daliwch ati!